

# amserbeibl

Storiâu o'r Beibl – Safon 2

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran \_\_\_\_\_ Dyddiad geni \_\_\_\_\_

Enw \_\_\_\_\_

Cyfeiriad \_\_\_\_\_

Enw Arweinydd y Dosbarth \_\_\_\_\_



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



## DARLLENWCH

- 1 Brenhinoedd 19: 19-21  
2 Brenhinoedd 2: 1-15



## ADNOD ALLWEDDOL

- 2 Brenhinoedd 2: 14

Gofynnwch am help  
i chwilio am  
yr adnod hon.

## Stori 1 Eliseus – Yr alwad i ddilyn.



Erbyn hyn, roedd Elias yn hen ŵr. Roedd wedi bod yn gweithio fel proffwyd Duw am flynyddoedd lawer. Cyn hir, byddai'n amser iddo fynd i'r Nefoedd.


Roedd Duw yn awyddus i Eliseus helpu Elias. Yn wir, yn fuan iawn, Eliseus fyddai'r proffwyd nesaf.

Aeth Elias at Eliseus a thaflodd ei glogyn amdano. Gwyddai Eliseus fod hyn yn arwydd y dylai e fynd gydag Elias i wasanaethu Duw. Ffarweliodd â'i deulu ac aeth gydag Elias.

Ar ôl bod gyda'i gilydd am rai blynyddoedd, daeth yn amser i Dduw fynd ag Elias i'r Nefoedd. Dywedodd Elias wrth Eliseus am beidio â dod gydag e. Ond roedd Eliseus yn gwrthod gadael Elias ac arhosodd y ddau gyda'i gilydd nes iddyn nhw ddod o'r diwedd i Afon yr Iorddonen.

### C Llanwch y grid geiriau:

1. Pwy oedd yn hen ŵr erbyn hyn?
2. Beth daflwyd dros ysgwyddau Eliseus?
3. Daethon nhw at Afon yr \_\_\_\_\_.
4. Aeth Eliseus gydag Elias i \_\_\_\_\_ Duw.
5. Ffarweliodd Eliseus â'i \_\_\_\_\_.
6. Pwy ddewisodd Eliseus i fod yn broffwyd ar ôl Elias? \_\_\_\_\_
7. Enw tad Eliseus. \_\_\_\_\_



Wrth iddyn nhw sefyll ar lan yr afon, cydiodd Elias yn ei glogyn a'i rollo. Trawodd y dŵr â'r dilledyn. Ymrannodd y dŵr a cherddodd y ddau ohonynt drosodd ar dir sych. Roedd nerth Duw gydag Elias!

Yna, gofynnodd Elias i Eliseus: "Beth wyt ti am i fi ei wneud i ti cyn i fi fynd i'r Nefoedd?"

Gwyddai Eliseus y byddai arno angen nerth a help Duw. Byddai'n rhaid iddo hefyd ymddiried yn Nuw fel y gwnaeth Elias, felly gofynnodd a allai fod fel Elias. Roedd Eliseus wedi gofyn am y peth iawn!

Yn sydyn, ymddangosodd cerbyd rhyfel tanllyd yn cael ei dynnu gan geffyl.

Cafodd Elias ei gipio i'r awyr gan gorwynt. Gadawyd Eliseus yn sefyll yno ar ei ben ei hun, yn rhyfeddu at yr hyn oedd wedi digwydd. Yna, sylwodd ar glogyn Elias yn gorwedd ar lawr. Cododd y clogyn, safodd ar lan y dŵr a defnyddiodd y dilledyn yn union fel y gwnaethai Elias yn gynharach.

### Gofynnodd Eliseus:

“Ble mae'r  
Arglwydd,  
Duw Elias?”

### Lliwch y llythrennau.

4

Wrth i Eliseus daro'r afon, ymrannodd y dŵr a cherddodd yntau i'r ochr draw. Nawr, roedd Eliseus yn gwybod i sicrwydd fod Duw Elias gydag e. Roedd Duw Elias yn Dduw iddo ef hefyd. Gwyddai Eliseus nad oedd ar ei ben ei hun ond y byddai Duw yn ei helpu er mwyn iddo Ei wasanaethu Ef.

### Rhowch (✓) neu (X) wrth ymyl y brawddegau hyn i ddangos a ydyn nhw'n GYWIR neu'n ANGHYWIR:-

Daeth Eliseus o hyd i glogyn Elias ar y llawr. ....

Doedd Eliseus ddim yn gallu croesi'r afon. ....

Roedd nerth Duw gydag Eliseus. ....

Roedd Duw wedi rhoi i Eliseus yr hyn a ofynnodd amdano ....

4

Mae Duw am i bob un ohonom ni sy'n Ei garu Ei wasanaethu Ef. Gallwn wasanaethu Duw drwy fyw bywydau sy'n Ei fodloni a thrwy ddweud wrth eraill amdano Ef.

**DARLENWCH**

2 Brenhinoedd 4: 8-37

**ADNOD  
ALLWEDDOL**

2 Brenhinoedd 4: 33

Gofynnwch am help  
i chwilio am  
yr adnod hon.

**Stori 2 Eliseus – Rhoi cysur i ffrind.**

Teithiai Eliseus o amgylch y wlad yn gwneud gwaith Duw. Weithiau, byddai'n ymweld â lle o'r enw Sunem. Roedd gwraig gyfoethog yn byw yno ac roedd hi'n garedig iawn wrth Eliseus. Byddai'n paratoi prydau bwyd da ar ei gyfer a threfnodd fod ystafell arbennig yn cael ei hadeiladu yn llofft ei thŷ lle gallai Eliseus orffwys.



**C** Tynnwch lun o'r eitemau canlynol y mae'r Beibl yn dweud i'r wraig eu dod i yn yr ystafell.

gwely

cadair

bwrdd

lamp



Roedd Eliseus yn ddiolchgar iawn am bopeth a wnaeth y wraig hon. Roedd e'n awyddus i wneud rhywbeth caredig drosti hi. Doedd ganddi ddim plant, felly, addawodd Eliseus wrthi y byddai Duw yn rhoi iddi fab bychan. Ymhen amser, ganwyd bachgen bach i'r wraig. Rhaid ei bod hi mor hapus bryd hynny!




Un diwrnod, rai blynyddoedd yn ddiweddarach, pan oedd y bachgen allan yn y caeau gyda'i dad, cafodd ei daro'n sâl iawn. Cariwyd ef i'r tŷ, ond bu farw'n fuan wedyn. Aeth ei fam ar frys ar gefn asyn i chwilio am Eliseus. Gwyddai fod Eliseus yn ddyn Duw ac y gallai ef ei helpu, drwy nerth Duw.

Pan gyrhaeddodd Eliseus y tŷ, aeth i fyny i'w ystafell arbennig lle gorweddai'r bachgen marw. Caeodd Eliseus y drws a gweddiodd ar Dduw. Wedyn, anadlodd i gorff y bachgen a dechreuodd hwnnw adfywio.

Dyma'r bachgen yn tisian saith o weithiau ac yna agorodd ei lygaid! Roedd Duw wedi ateb gweddi Eliseus.

Allwn ni ddim dychmygu mor hapus oedd y wraig i gael ei mab yn ôl. Roedd hi wedi gweld hefyd sut roedd Eliseus yn ymddiried yn Nuw ac yn gweddio arno Ef. Oherwydd hynny, roedd rhywbeth oedd yn ymddangos mor amhosibl wedi ei wneud.



**C** Gosodwch y brawddegau hyn yn eu trefn drwy ysgrifennu'r rhifau 1 i 5 yn y blychau.

- Pan oedd y bachgen yn hŷn, aeth yn sâl yn y caeau.
- Cafodd y wraig fachgen bach.
- Aeth y wraig ar gefn asyn i chwilio am Eliseus.
- Gweddiodd Eliseus ar Dduw a daeth y bachgen yn ôl yn fyw.
- Bu farw'r bachgen cyn bo hir.

10

Mae Duw am i ni ymddiried Ynddo Ef a gweddio am y pethau anodd sy'n digwydd yn ein bywydau.

**C** Lliwiwch bob un o'r llythrennau sy'n cynnwys dot. Mae hyn yn dweud wrthym beth wnaeth Eliseus.

EGWEDDÏODDS  
FOESAREMYR  
DGARGLWYDD

2

**DARLENWCH**

1 Brenhinoedd 5: 1-19

**ADNOD  
ALLWEDDOL**

2 Brenhinoedd 5:15

Gofynnwch am help  
i chwilio am  
yr adnod hon.

**Stori 3 Eliseus – Iachâu i ddyn gwahanglwyfus**

Roedd Naaman yn ddyn pwysig iawn. Ef oedd capten byddin y brenin. Ond roedd gan Naaman broblem ddifrifol. Roedd yn dioddef o glefyd croen ofnadwy – y gwahanglwyf – a doedd dim modd ei wella.

**C Lliwiwch y llun.**


Yn nhŷ Naaman, roedd morwyn ifanc oedd wedi dod yno o wlad Israel, lle'r oedd Eliseus yn byw.

Roedd hi'n siŵr y gallai Duw helpu Eliseus i wella Naaman.

Felly, cafodd Naaman ganiatâd gan y brenin i fynd i Israel. Aeth ag anrhegion – aur, arian a dillad – gydag e. Cyn hir, cyrhaeddodd yn nhŷ Eliseus.

Mae'n siŵr fod Naaman yn rhyfeddu na ddaeth Eliseus allan i'w weld na'i wahodd i mewn i'r tŷ.

Anfonodd Eliseus negesydd at Naaman i ddweud wrtho fod rhaid iddo ymolchi saith gwaith yn Afon yr Iorddonen os oedd am gael ei iacháu.



5

**C Tynnwch saeth i ddangos gair olaf cywir pob brawddeg.**

**Mae'r cyntaf wedi ei wneud drosoch**


Roedd y forwyn fach yn gwybod am  
Teithiodd Naaman i wlad  
Arhosodd cerbyd Naaman y tu allan i'r

tŷ  
Eliseus  
Israel

4



Roedd Naaman yn gynddeiriog am iddo gael ei drin mor anghwrtais. Roedd e'n bendant nad oedd e am ymolchi yn yr Iorddonen. Ond perswadiodd gweision Naaman ef i ufuddhau i orchymyn Eliseus – wedi'r cyfan, dyma'i unig obaith o gael ei iacháu.



Camodd Naaman i ddŵr mwdlyd Afon yr Iorddonen. Aeth o dan y dŵr, ond roedd yr clefyd yn dal ar ei gorff. Dim ond pan ddilynodd orchmynion Eliseus yn llwyr, drwy ymdrochi saith o weithiau yn yr afon, y cafodd ei iacháu. Daeth ei groen yn lân unwaith eto a doedd dim golwg o'r gwahanglwyf ofnadwy. Gwyddai Naaman nawr mai Duw Eliseus oedd y gwir Dduw. I ffwrdd ag e nôl at Eliseus. Roedd am roi anrhegion iddo fel arwydd o'i ddiolchgarwch. Ond doedd Eliseus ddim am gymryd unrhyw beth! Gwyddai Eliseus mai Duw, mewn gwirionedd, oedd wedi iacháu Naaman.

**C** Ysgrifennwch OEDD neu NAC OEDD yn ateb i bob cwestiwn:-

- Oedd Naaman eisiau ymolchi yn Afon yr Iorddonen ar y dechrau? .....
- Oedd Eliseus wedi derbyn anrhegion Naaman? .....
- Oedd Naaman yn credu yn Nuw ar ôl iddo gael ei iacháu? .....

6

Byddai Naaman wedi bod yn ofnadwy o ffôl pe bai wedi gwrthod gwneud fel y dywedodd Eliseus wrtho. Dyma'r unig ffordd iddo gael ei iacháu – dim ond ufuddhau oedd angen! Mae Duw wedi paratoi ffordd er mwyn i'n pechodau ni (sydd fel afiechyd) gael eu maddau. Beth yw'r ffordd honno? - ymddiried yn yr Arglwydd Iesu a'i farwolaeth Ef ar y groes. Dyna ffôl fyddwn ni os gwrthodwn ni'r iachawdwriaeth a baratowyd gan Dduw ar ein cyfer!

**C** Llanwch y geiriau sydd ar goll:-

- Roedd Naaman yn dioddef o afiechyd  
o'r enw y g \_\_\_\_\_ .
- Enw ein hafiechyd ni yw p \_\_\_\_\_ .
- Iachawyd Naaman drwy iddo ymdrochi saith gwaith yn  
Afon yr I \_\_\_\_\_ .
- Gallwn ni dderbyn maddeuant drwy ymddiried yn yr  
A \_\_\_\_\_ I \_\_\_\_\_ .

5

**DARLENWCH**

2 Brenhinoedd 5: 19-27

**ADNOD  
ALLWEDDOL**

Numeri 32: 23

Gofynnwch am help  
i chwilio am  
yr adnod hon.

**Stori 4 Eliseus – Cosbi Twyll.**

Wedi i Naaman adael Eliseus er mwyn mynd nôl adref, dechreuodd Gehasi, gwas Eliseus, feddwl am yr hyn oedd wedi digwydd.



Roedd Gehasi yn

---

***BANC GEIRIAU***

Drwy'r wers hon, dewiswch y gair sy'n disgrifio Gehasi orau.

twyllodd

farus

dweud celwydd

Rhaid defnyddio un ddwywaith!

2

Rhedodd Gehasi ar ôl Naaman. Gwelodd Naaman ef yn dod yn y pellter a dechreuodd feddwl beth allai fod o'i le. Adroddodd Gehasi stori gelwyddog.



Roedd Gehasi yn

---

2

Rhoddodd Naaman ddwy god o arian a dwy set o ddillad i Gehasi heb gwyno o gwbl. Cariodd dau was yr anrhegion i dŷ Gehasi a chuddiwyd nhw yno.

..... **Gehasi Naaman**

2



Mae'n bur debyg fod Gehasi yn teimlo'n eithaf balch am iddo fod mor glyfar. Roedd e gymaint yn fwy cyfoethog nawr ac ni fyddai ei feistr Eliseus fyth yn dod i wybod beth wnaeth e. Yn ddiweddarach, pan aeth Gehasi nôl at Eliseus, gofynnodd Eliseus iddo ble roedd e wedi bod.



**Roedd Gehasi yn**

---

2

Ond roedd Eliseus yn gwybod yn hollol beth oedd wedi digwydd. Dyn Duw oedd Eliseus ac roedd Ef wedi dangos iddo'n union beth ddigwyddodd. Yn sydyn, trawyd Gehasi gan y gwahanglwyf, yr un afiechyd a fu gynt ar gorff Naaman. Ni allai Duw adael i Gehasi ddianc heb ei gosbi am y drygioni a wnaeth. Byddai'n dioddef ei gosb am weddill ei oes.

**C Rhowch gylch o gwmpas y pethau gafodd Gehasi oddi wrth Naaman.**

**ffrwythau      codau arian      dillad      anifeiliaid**

Pwy roddodd gosb ar Gehasi? .....

Beth oedd ei gosb? .....

4

4

Mae'r Beibl yn dweud wrthym fod yr holl bethau wnaeth Gehasi yn bethau drwg. Mae pob un ohonom ninnau hefyd wedi pechu. Bydd Duw yn ein cosbi ni oherwydd ein pechod, os nad ydym wedi gofyn am Ei faddeuant. Gall pob un ohonom dderbyn maddeuant gan Duw pan fyddwn yn ymddiried yn yr Arglywydd Iesu fel ein Gwaredwr personol.

**Lliwiwch a dysgwch yr adnod allweddol.**

“Gewch wybod y bydd eich pechod yn eich dal.”

**(Numeri 32:23)**

4

**cyfanswm**

Marciau  
(i'w nodi gan yr arweinydd)

---



---



---

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD. Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar [www.biblelinkit.com](http://www.biblelinkit.com) neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts. Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o [www.amserbeibl.org](http://www.amserbeibl.org)

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag: Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120